

HEDDWCH A CHYMUNED



PAM MAE'N BWYSIG

Mae pawb yn haeddu byw mewn cymdeithas heddychlon a theimlo eu bod yn perthyn iddi.

Y MATERION

Mewn byd sy'n teimlo'n fwyfwy rhanedig, mae pobl ifanc yn profi effeithiau pegynnu yn eu bywydau bob dydd. Mae rhaniadau a llwytholiaeth sy'n deillio o wybodaeth anghywir, camwybodaeth fwriadol, siambrau adlais a rhagfarn yn ei gwneud hi'n anoddach dod o hyd i bwrpas cyffredin a theimlo'n ddiogel. Mae hyn yn lledaenu negyddiaeth a diffyg dealltwriaeth rhwng grwpiau ar sail pwy ydym ni, o ble rydym yn dod a beth rydym yn ei gredu, gan ganiatáu i elyniaeth, dicter a thrais gynyddu.

BETH DYWEDODD POBL IFANC?

Tynnodd pobl ifanc sylw at broblemau yn ymwneud â:

Trais

Methu cerdded o gwmpas heb ofn

Ystyried beirniadaeth yn broblem, pan ddylem ddysgu a thyfu ohoni

Twf ideoleg y dde eithafol

Siambrau adlais – lledaenu gwybodaeth anghywir a negyddiaeth

Rhagfarn anymwybodol – agweddau sy'n cael eu trosglwyddo rhwng cenedlaethau

Trais ar-lein

Gallu bodoli, ond methu ffynnu

BETH RYDYM AM I'R RHAI SY'N GWNEUD PENDERFYNIADAU EI WNEUD

Datblygu sgiliau meddwl yn feirniadol mewn ysgolion – dysgu pobl ifanc i adnabod ffynonellau, deall rhagfarn ac ystyried safbwyntiau gwahanol.

Gwneud grwpiau cymunedol yn fwy gweladwy – creu cyfleoedd hygyrch i bobl o wahanol gefndiroedd gwrdd.

Targedu ardaloedd sydd ag angen – creu cyfleoedd i ddod â chymunedau ynghyd mewn ardaloedd llai amrywiol, megis ardaloedd gwledig.

Creu rhagor o fannau diogel ar gyfer trafodaethau manwl a chymhleth.

Dwyn y cyfryngau i gyfrif – mae'r cyfryngau'n siapio sgysiau, a gall targedu cymunedau penodol greu mwy o raniadau.

Annog dathlu pob diwylliant.

CYNLLUN GWEITHREDU

Y Camau Bach

Bod yn ddinesydd gweithgar – herio gwybodaeth anghywir a chamwybodaeth fwriadol pan fo'n ddiogel gwneud hynny.

Hunanfyfrio – arfer cwestiynu eich credoau eich hun a'r hyn y maent wedi'u seilio arno.

Bod yn agored – siarad â phobl sydd â safbwyntiau gwahanol a bod yn barod i ystyried persbectifau eraill.

Defnyddio'r cyfryngau'n feirniadol – darllen mwy nag un safbwynt ar yr un mater er mwyn ffurfio eich barn eich hun.

Bod yn garedig – parchu safbwyntiau pobl eraill hyd yn oed pan fyddwch yn anghytuno.